# GWASANAETH CA3

## THEMA: ANGERDD

## LLEFARU

Ar gyfer y gwasanaeth hwn bydd angen tua 6 llefarydd, ond gall yr union nifer ddibynnu ar faint o ddisgyblion sydd ar gael i gymryd rhan. Awgrym yn unig felly yw'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ei osod allan – gellir cynnwys mwy neu lai o lefarwyr, gan uno neu wahanu darnau o'r sgript.

## ELFEN GERDDOROL

Mae'n debyg y bydd gan bob ysgol drefn wahanol o gynnwys deunydd cerddorol wrth ymgynnull mewn gwasanaeth neu gyfarfod boreol. Os yw'n arferol dewis emyn o blith taflen emynau'r ysgol, yna gellir dewis un ar thema **argyhoeddiad/ bod yn driw i weledigaeth/ defnyddio doniau** . Fel arall gellir dewis chwarae neu berfformio elfen gerddorol addas yn ôl dewis yr athro. Mae awgrym arall yn y sgript, os yw defnyddio dolen o'r rhyngrwyd yn bosibl yng nghyd-destun yr ymgynnull.

Llefarydd 1: Heddiw, y gair allweddol yn ein gwasanaeth yw **angerdd**. Er mwyn cyflawni rhywbeth o wir werth, rhaid teimlo'n angerddol drosto – hynny yw teimlo'n gryf, rhoi eich calon iddo'n llwyr. Mae chwaraewyr sydd ar frig eu gêm ym myd chwaraeon wedi ymroi'n angerddol i gyrraedd y nod dros flynyddoedd o hyfforddi. Mae ganddyn nhw hefyd eu cefnogwyr sy'n teimlo'n angerddol dros eu tîm, er mwyn rhoi anogaeth a'u helpu i lwyddo.

Llefarydd 2: Mae cerddorion sydd yn chwarae ar lwyfannau mawr y byd wedi ymarfer eu *scales* a'u *arpeggios* am oriau hir a diflas weithiau, am eu bod yn caru cerddoriaeth gydag angerdd. Dyna sy'n eu tanio i ddal ati i gyrraedd y brig. Mae milfeddyg neu lawfeddyg yn astudio am flynyddoedd lawer i basio nifer o arholiadau caled er mwyn gwneud beth maen nhw'n teimlo'n angerddol drosto, sef lleddfu poen a gwella dolur. Mae pobl eraill yn teimlo'n angerddol dros achos pwysig fel Greenpeace, Amnest Rhyngwladol neu Gymorth Canser Macmillan, ac yn fodlon aberthu amser neu ryddid personol er lles pobl eraill.

Llefarydd 3: Dim ots ym mha agwedd ar fywyd – byd gwaith neu ddiddordebau, gwleidyddiaeth neu gelfyddyd – mae cael tân yn eich bol dros rywbeth yn rhoi blas ar fyw ac yn caniatáu i chi wneud cyfraniad gwerthfawr. Efallai mai'r cwestiwn sy'n mynd drwy'ch meddwl yw – sut gall rhywun fel **fi** wneud cyfraniad fel 'na. Dwi ddim yn ddim byd arbennig neu sbesial i wneud marc ar y byd – 'dyw fy adroddiadau ysgol ddim yn awgrymu hynny beth bynnag!

Gwrandewch ar hanes un dyn arbennig o Gymru sydd â'i enw ar wefusau miloedd o bobl eleni.

Llefarydd 3: Yn 1914, roedd gŵr a gwraig o'r enw Mr a Mrs Thomas yn byw yn Cwmdonkin Drive yn Abertawe. Athro Saesneg oedd Mr D.J. Thomas, y tad, a gwniadwraig oedd Mrs Florence Thomas, y fam. Cawson nhw ferch a mab, ac fe dyfodd y mab yna i fod yn rhywun go arbennig yn y pen draw. Ei enw oedd Dylan Thomas – bardd a ddaeth yn enwog dros y byd am ei farddoniaeth wahanol a phwerus, a'i ryddiaith gelfydd a lliwgar. Ac eleni, yng nghanmlwyddiant ei eni, fe fydd pobl yn heidio i Gymru i ymweld â'r mannau oedd yn allweddol yn ei fywyd byr – oherwydd bu farw Dylan Thomas yn lled ifanc, yn 39 oed. Ond gadawodd ar ei ôl rai o ddarnau creadigol mwyaf enwog y byd.

Llefarydd 4: Ond pan oedd yn fachgen ysgol, doedd dim lot o siâp arno'n academaidd. Roedd yn fachgen gwanllyd ac yn aml yn sâl ac yn colli dyddiau lawer o ysgol. Roedd yn hoff o bryfocio eraill ac o wastraffu amser mewn gwersi. Doedd e ddim yn arbennig o alluog ym mhob pwnc a disgybl cyffredin iawn oedd e, yn ôl ei adroddiadau ysgol. Doedd e ddim yn un i ennill gwobrau – heblaw am un ras yn annisgwyl pan oedd yn yr ysgol gynradd. A dweud y gwir, doedd dim byd hynod amdano o gwbl. Ond, roedd gan y bachgen hwn un angerdd mawr yn ei fywyd a hwnnw oedd yr angerdd dros eiriau a thros ysgrifennu. Ers ei ddyddiau'n blentyn ifanc, roedd ei dad wedi darllen iddo – hwiangerddi, darnau o'r Beibl, gwaith Shakespeare. Roedd Dylan wedi syrthio mewn cariad â sain geiriau.

Llefarydd 5: Yn ei amser rhydd byddai'n darllen ac yn sgriblo cerddi. Yn y chweched dosbarth, treuliodd lawer o'i amser yn cynhyrchu, golygu ac ysgrifennu cylchgrawn i awduron newydd ifanc o Gymru. Dyna oedd ei ddiddordeb. Ymhen ychydig flynyddoedd roedd ei enw'n adnabyddus ar hyd ac ar led fel un o feirdd mwyaf cyffrous ei gyfnod. Eleni bydd pobl yn cofio amdano trwy ddarllen a gwrando ar ei waith – *A Child's Christmas in Wales*, *Under Milk Wood* a *Do Not Go Gentle into That Good Night*, i enwi dim ond tri.

Llefarydd 6: Roedd ei fywyd yn un go flêr. Roedd yn aml mewn dyled, ac yn rhy hoff efallai o gymdeithasu gwyllt. Ond nid dyna sy'n bwysig amdano, er ei fod yn rhan fawr o stori ei fywyd. Beth sy'n bwysig yw ei angerdd i greu a chyfansoddi, a rhoi ei straeon a'i syniadau ar bapur i bobl eraill gael eu rhannu. Fe ysbrydolwyd pobl eraill gan ei waith i gyfansoddi gweithiau newydd eto – y cerddorion Daniel Jones a Stravinsky, Bob Dylan a John Cale o'r Velvet Underground. Fe gyfansoddodd y cerddor jazz Stan Tracey ddarn jazz anhygoel i gyfeilio i ddrama enwog Dylan Thomas, sef 'Under Milk Wood'. Mae'r ddrama enwog hon yn dechrau gyda disgrifiad o'r nos lonydd dywyll ym mhentref Llareggub, lle nid oes dim byd o gwbl yn symud, a phawb yn

cysgu'n drwm. Gwrandewch ar ychydig funudau o'r gwaith hwn, sy'n llawn o awyrgylch y nos.
http://www.youtube.com/watch?v=licfYnOmpRs
(Gellir dewis chwarae rhyw funud a hanner i ddwy funud o'r darn, gan ostegu'r sain yn is i hebrwng y Munud i Feddwl sy'n dilyn, os dymunwch)

NODYN: Yn y darn yma o'r gwasanaeth, os nad oes modd defnyddio'r ddolen uchod, gellir cael seibiant i ychydig funudau o gerddoriaeth addas sy'n cyfleu angerdd neu emyn neu eitem gerddorol gan ddisgybl, gan greu cyflwyniad priodol.

Un dewis posibl yw darn o Benedictus gan Karl Jenkins (gellir ei glywed ar http://www.youtube.com/watch?v=dfxOaL0PXvI ond mae ar gael mewn cyfryngau eraill hefyd) , sef un arall o feibion ardal Abertawe, hefyd yn fab i athro fel Dylan Thomas, ond athro cerddoriaeth a blannodd yr angerdd yn ei fab at gerddoriaeth fel y plannodd tad Dylan Thomas angerdd at eiriau yn ei fab yntau.)

## MUNUD I FEDDWL

Llefarydd 1: Y mae angen pobl angerddol arnom yn y byd hwn. Pobl sy'n angerddol dros gyfiawnder a hawliau dynol. Pobl sy'n angerddol dros eu crefft a'u celfyddyd. Pobl sy'n angerddol dros y byd a'n hamgylchedd. Pobl sy'n angerddol dros helpu a chefnogi eraill. Mae'n hawdd byw yn ddioglyd heb deimlo unrhyw awydd dwfn dros ddim byd. Ond mae hedyn angerdd ym mhob un ohonom. Gofynnwn am allu teimlo gwefr y cyfraniad sydd gan bob un ohonom i'w wneud i'r byd hwn. Gofynnwn am y dyfalbarhad i ddal ati i feithrin pa bynnag ddawn unigryw sydd y tu mewn i bob un ohonom. Nid er mwyn brolio, ac nid er mwyn elw - ond er mwyn cyfoethogi'r byd ry'n ni'n byw ynddo.